



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllunio Ailgartrefu Cyflym: Canllawiau Ategol ar gyfer Awdurdodau Lleol 2027-2031

Hydref 2026

Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru
3. Integreiddio Ailgartrefu Cyflym o fewn prosesau cynllunio tai ehangach
 - 3.1 Dull at y Dyfodol
 - 3.2 Asesu Anghenion
 - 3.3 Cynllunio Gweithredu

Atodiad A

Ailgartrefu Cyflym – enghreifftiau o arfer da

Cynllunio Ailgartrefu Cyflym: Canllawiau Ategol ar gyfer Awdurdodau Lleol

1. Cyflwyniad

Mae Ailgartrefu Cyflym yn parhau i roi blaenoriaethu i leihau'r amser mae pobl yn ei dreulio mewn llety dros dro, cynyddu mynediad at dai sefydlog a sicrhau bod pobl yn derbyn y cymorth cywir er mwyn cadw cartref, wrth i awdurdodau lleol barhau i drawsnewid gwasanaethau digartrefedd yn unol â [chanllawiau cenedlaethol](#).

Nid yw prif elfennau Ailgartrefu Cyflym wedi newid:

- Tybir bod pawb yn 'barod am gartref' os ydyn nhw'n cael y cymorth cywir
- Bod pobl yn treulio cyn lleied o amser â phosibl mewn llety dros dro
- Pan fydd angen llety dros dro ar bobl, ei fod o safon uchel
- Bod pobl yn gallu cael y cartref iawn a hynny yn y lle iawn iddyn nhw
- I'r rhan fwyaf o bobl, cartref annibynnol, prif ffrwd fydd yr opsiwn diodyn, ond efallai y bydd eraill yn dewis llety â chymorth
- Bod pobl yn gallu cael cymorth amlasiantaeth o ansawdd uchel, wedi'i deilwra i anghenion unigol, os bydd angen hyn

Mae pob awdurdod lleol wedi datblygu Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym (RRHTTP), sy'n nodi'r camau sydd eu hangen i sicrhau dull sy'n canolbwyntio ar atal sy'n darparu tai sefydlog, hir tymor. Disgwylir i'r cynlluniau hyn ddod i ben ym mis Ebrill 2027.

Mae'r canllawiau diwygiedig hyn yn adeiladu ar y canllawiau ar gyfer [Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym \(RRHTTP\)](#), a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021 i gefnogi awdurdodau lleol i barhau i ymgorffori eu dull Ailgartrefu Cyflym o fewn eu prosesau cynllunio ehangach.

2. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru

Roedd manifestio Llywodraeth Plaid Cymru [2024](#) yn ymrwymo'n benodol i fynd i'r afael â digartrefedd drwy gyfuniad o'r model Tai yn Gyntaf ac Ailgartrefu Cyflym.

Mae [Rhaflen Lywodraethu 2026 i 2030](#) yn ymrwymo i ddull Tai yn Gyntaf, sy'n cael ei lywio gan drawma ac yn canolbwyntio ar y person wrth ymdrin â digartrefedd, ac i sicrhau bod gan bawb gartref diogel. Mae Ailgartrefu Cyflym yn cefnogi'r weledigaeth hon drwy roi blaenoriaeth i atal, mynediad amserol at dai sefydlog a chymorth wedi'i deilwra i helpu pobl i cadw eu cartrefi.

Ym mis Mehefin 2026, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddarparu 20,000 o gartrefi cymdeithasol ychwanegol erbyn 2030. Bydd y targed hwn yn canolbwyntio ar ddarparu cartrefi gwirioneddol fforddiadwy sy'n parhau i fod yn hygyrch i gymunedau dros y tymor hir, h.y. lle mae tai yn barhau i fod yn fforddiadwy am byth.

Ailgartrefu Cyflym a Deddf Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) 2026

Mae egwyddor Ailgartrefu Cyflym wedi'i hymgorffori yn [Neddf Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol \(Cymru\) 2026](#) (y Ddeddf), sy'n gosod y cyfeiriad ar gyfer dyfodol cymorth

digartrefedd yng Nghymru. Er enghraifft, mae dyletswyddau newydd fel y ddyletswydd i helpu i gadw llety, a'r ddyletswydd i gysylltu â rhai ymgeiswyr i gynorthwyo gyda chynnal tenantiaeth wedi'u gwreiddio yn egwyddorion Ailgartrefu Cyflym.

Bydd y Ddeddf yn cael ei chyflwyno mewn tri cham:

- **Cam 1** (o fis Medi 2027): Mae Cam 1 yn atgyfnerthu mesurau atal, cymorth a llif y system, gan gyflwyno mesurau i wella canlyniadau a lleihau pwysau, ochr yn ochr â chanllawiau a hyfforddiant newydd.
- **Cam 2** (o fis Medi 2028): Mae Cam 2 yn ehangu cyfrifoldebau ar draws gwasanaethau cyhoeddus, gan gyflwyno dyletswyddau fel 'gofyn a gweithredu' a dyletswyddau sy'n ymwneud â chydgyssylltu a chydweithredu ar achosion amlasiantaeth.
- **Cam 3** (rhwng Medi 2029 a Mawrth 2031): Mae ehangu'r system yn cynnwys dileu'r prawf angen blaenoriaethol a'r prawf bwriadoldeb, a chyflwyno'r prawf cysylltiad lleol â Chymru a phrawf manipiwleiddio bwriadol

Mae pob cam yn cefnogi pontio graddol i system ddigartrefedd ddiwygiedig sy'n seiliedig ar y canlynol:

- Dylai digartrefedd fod yn beth prin a byrhoedlog nad yw'n digwydd eto.
- Dylai gwasanaethau digartrefedd ystyried trawma a chanolbwyntio ar yr unigolyn.
- Dylai fod modd i'r rhai sy'n ddigartref gael cartref hirdymor yn gyflym, gan eu gwneud yn fwy hunangynhaliol a'u helpu i gadw eu cartref (Ailgartrefu Cyflym).
- Gwasanaethau cyhoeddus Cymru sy'n gyfrifol am atal digartrefedd.

3. Integreiddio Ailgartrefu Cyflym o fewn prosesau cynllunio tai ehangach

3.1 Dull at y dyfodol

Er mwyn cefnogi integreiddio Ailgartrefu Cyflym yn well o fewn prosesau cynllunio tai ehangach, dylai awdurdodau lleol ymgorffori eu hasesiad Ailgartrefu Cyflym diwygiedig, ac unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen i barhau i ymgorffori'r dull a diwallu anghenion cymorth a'r galw am dai, yn eu Strategaethau Digartrefedd a Chymorth Tai (HHSP) (2027–31), eu [Hasesiad o'r Farchnad Dai Leol](#) a'u [Prosbectws Tai](#).

Ni fydd yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym newydd o fis Ebrill 2027. Nod cam nesaf Ailgartrefu Cyflym yw gwneud yn siŵr mai'r dull hwn yw'r dull diofyn o ymdrin â digartrefedd, gan ddangos gostyngiadau mesuradwy o ran faint o lety dros dros sy'n cael ei ddefnyddio, ochr yn ochr â mynediad gwell at dai sefydlog a rhagor o bobl yn cynnal tenantiaethau.

Er bod Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym (RRHTPs) yn dod i ben ym mis Mawrth 2027, cydnabyddir y bydd awdurdodau lleol ar wahanol gamau o'u trosglwyddo i Ailgartrefu Cyflym; gydag unrhyw gamau gweithredu sy'n mynd rhagddyn nhw a rhai nad ydyn nhw wedi cael eu cwblhau yn cael eu trosglwyddo i'w Strategaeth HHSP (2027–31) a'r fersiwn nesaf o'u LHMA. Fodd bynnag, erbyn Ebrill 2027 disgwyli'r y bydd gan awdurdodau lleol

fodel llety y cytunwyd arno ar waith gyda llwybr clir i lety sefydlog; er y gall fod ar wahanol gamau gweithredu.

Mae'r adrannau canlynol yn nodi'r camau y disgwylir i awdurdodau lleol eu cymryd i gefnogi'r gwaith o barhau i gyflawni ac ymgorffori Ailgartrefu Cyflym.

3.2 Asesu Anghenion

3.2.1 Asesu Anghenion Cymorth

Er mwyn galluogi parhau i gynllunio ar gyfer pontio, bydd angen asesu angen o'r newydd er mwyn adeiladu ar yr wybodaeth wedi'i chasglu o'r asesiad blaenorol a sicrhau sylfaen dystiolaeth gyfredol.

Yn benodol, mae angen dau beth:

- Dadansoddiad o'r niferoedd yng nghategori pob un o'r pedwar grŵp cymorth (isel, canolig, uchel, dwys ac
- Amcangyfrif o'r cymarebau o achosion o ddigartrefedd sy'n debygol bob blwyddyn yn y dyfodol.

Bydd yr ymarfer hwn yn llywio (ochr yn ochr â ffynonellau data eraill) yr asesiad o anghenion yn adran 2 o'r Strategaeth HHSP (sydd i fod wedi'i gwblhau Ebrill 2027).

Yn ogystal, disgwylir y bydd asesiadau a gynhelir ar y cyd â'r partneriaid hynny sy'n rhoi cymorth arbenigol, fel iechyd a gofal cymdeithasol, yn fwy cywir a chyson ar gyfer y rheini y mae angen gwasanaethu cymorth arnyn nhw.

Grwpiau Cymorth:

Er mwyn sicrhau lefel o gysondeb, rydyn ni'n argymhell bod unigolion yn cael eu rhannu'n bedwar categori:

- **Anghenion Lefel Isel** – mae'r categori hwn yn debygol o gynnwys cyfran sylweddol nad oes ganddyn nhw ofynion cymorth neu fod ganddyn nhw ofynion lefel isel iawn, y mae modd eu cefnogi i gael llety sefydlog gyda lefel isel o gymorth neu o bosibl drwy gyfeirio yn unig.
- **Anghenion Lefel Ganolig** – ynghyd â'r categori Anghenion Lefel Isel mae'r grŵp hwn yn debygol o fod y mwyafrif, a bydd angen gwasanaeth Ailgartrefu Cyflym arnyn nhw gyda chymorth dros dro yn ôl yr angen. Gall fod angen cymorth arnyn nhw hefyd gan wasanaethau proffesiynol eraill er mwyn byw'n annibynnol mewn llety sefydlog.
- **Anghenion Lefel Uchel** – yn y categori hwn y bydden ni'n disgwyl gweld y rheini sydd ag anghenion cymhleth cyson a/neu hanes o gysgu allan mynych, a'r opsiwn diodyn ddylai fod cynnig cymorth Tai yn Gyntaf neu ymyriad dwys sy'n seiliedig ar dai iddyn nhw.

- **Anghenion Dwys** (gofynion cymorth 24/7 o bosibl) – dylai'r rhain gynnwys y rheini na allan nhw fyw yn annibynnol, efallai oherwydd pryderon ynghylch risg i'w hunain neu i eraill neu hyd yn oed dewis. Rydyn ni'n disgwyl y byddai pobl broffesiynol o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu cynnwys er mwyn sicrhau bod y gofal a'r cymorth yn addas at y diben. Os nodir bod rhywun yn y categori Anghenion Dwys, rhaid parhau i roi flaenoriaeth i'w symud i lety sefydlog.

Gofynion Cymorth:

Mae pum maes cymorth cyffredinol y gellir eu defnyddio i lywio asesiadau a chanolbwyntio cyngor a chymorth ar gyfer pobl er mwyn eu helpu i symud ymlaen a chadw eu llety yn y tymor hwy:

- *Ymarferol* – Mae hyn yn cynnwys cymorth i sefydlu cyfleustodau, cael dodrefn a pheccynau nwyddau gwyn, gwneud ceisiadau am fudd-daliadau a chyllidebu yn ogystal â chymorth cyffredinol i gynnal tenantiaethau ac ati.
- *Penodol/arbenigwyr* – mae hyn yn cynnwys diwallu anghenion iechyd corfforol (gan gynnwys cofrestru â meddyg teulu), anghenion iechyd emosiynol ac iechyd meddwl, anghenion mewn perthynas â chyffuriau ac alcohol yn ogystal â helpu rhywun i ymdopi ag unigedd ac os oes ganddyn nhw anawsterau dysgu neu anawsterau iaith.
- *Ymgysylltu* – y cymorth sydd ei angen i ymgysylltu â phobl, gan gynnwys gofynion allgymorth grymusol.
- *Sefydlogi* – y cymorth sydd ei angen i gadw llety presennol, gan gynnwys llety dros dro.
- *Dilyniant* – mae hyn yn cynnwys cefnogi pobl i ddatblygu dysgu a sgiliau ychwanegol, drwy hwyluso mynediad neu gyfeirio at gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth, addysg neu wirfoddoli.

Gofynion o ran Tai/Llety:

Yn ogystal â chymorth, rhaid ystyried gofynion o ran tai hefyd – bydd y rhain hefyd yn dylanwadu ar lefel y cymorth sydd ei angen:

- *Lleoliad* – i gynnwys ardal ddewisol yr unigolyn (gan gynnwys agosrwydd i addoldai, teulu, ffrindiau a chymorth cymunedol) ond hefyd i gynnwys ystyried fforddiadwyedd, trafnidiaeth, cyfleusterau lleol a chyfleusterau cymunedol ac arbenigol ac ati.
- *Deiliadaeth* – yn seiliedig ar y stoc sydd ar gael yn yr ardal ddewisol.
- *Fforddiadwyedd* – p'un a ellir fforddio talu costau'r llety, ond mae hefyd yn cynnwys nodi ffynonellau incwm.
- *Maint* – h.y. sengl, teulu neu rannu ac ati.
- *Hygyrchedd* – yng nghyd-destun a yw unigolyn yn anabl a/neu a oes ganddo ofynion mynediad

Bydd angen ystyried materion ehangach, nad ydyn nhw'n ymwneud â stoc tai yn unig ond a fydd yn effeithio ar allu pobl i fanteisio ar dai cymdeithasol. Er enghraifft:

- *Offer* – mae hyn yn cynnwys eitemau fel sugnwyr llwch, dillad gwely, carpedi a llenni ac ati. Mae angen ystyried yr amserlenni ar gyfer darparu'r rhain.
- *Materion eraill sy'n bwysig i'r unigolyn* – e.e. a ganiateir anifeiliaid anwes, os bydd hynny'n berthnasol.

Bydd yr Offeryn Pontio Excel sy'n cyd-fynd â'r canllawiau hyn yn darparu rhagor o fanylion, ond y disgwyliad yw y bydd y tabl canlynol yn cael ei gwblhau a'i gynnwys yn asesiad anghenion y Strategaeth HHSP a'r Datganiad o Angen (gweler adran 2 o'r templed Strategaeth HHSP)

Y Categori Cymorth	Y math o dai a argymhellir	Y cymorth a argymhellir	Nifer yr achosion ar hyn o bryd (yn cynnwys %)	Tueddiadau a ragwelir (yn cynnwys %)
Isel/Dim	Tai prif ffrwd	Cymorth unigol		
Canolig	Tai prif ffrwd	Unigryw, yn debygol o gynnwys cymorth amlasiantaethol		
Uchel	Tai prif ffrwd	Tai yn Gyntaf/cymorth dwys fel y bo'r angen, yn cynnwys cymorth amlasiantaethol		
Anghenion Dwys (24/7)	Tai â chymorth	Cymorth preswyl (sefydlog)		

3.2.2 Asesu anghenion tai

Roedd dadansoddiadau a gynhaliwyd yn 2022 ar gyfer Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym (RRHTTP) gwreiddiol awdurdodau lleol (2022–27) yn amlinellu'n glir anghenion tai pobl y mae angen cymorth digartrefedd arnyn nhw. Yn yr adran hon dylai awdurdodau lleol ddefnyddio'r data diweddaraf sydd ar gael i asesu sut mae'r galw a'r angen am dai wedi newid ers eu hasesiad yn 2022, ac a yw'r canfyddiadau sy'n sail i'r cynlluniau pontio gwreiddiol yn parhau i fod yn gyfredol.

Dylid cymharu'r data cyfredol â'r llinell sylfaen a sefydlwyd yn y cynllunio pontio gwreiddiol, a nodi unrhyw amrywiadau sylweddol yn y meysydd canlynol:

- gwybodaeth gefndir cleientiaid;

- math o aelwyd;
- achos y digartrefedd;
- deiliadaeth y llety cyn mynd yn ddigartref;
- cyfradd mynychder digartrefedd;
- y defnydd o lety dros dro;
- cysgu allan
- gwybodaeth cysylltiad lleol; a
- gwybodaeth am ganlyniadau o dan ddyletswyddau digartrefedd

Dylid nodi disgrifiad o sut mae tueddiadau wedi newid dros amser, goblygiadau ar gyfer darparu gwasanaethau a chyflenwadau tai a'r camau gweithredu sydd eu hangen i gefnogi gweithredu Ailgartrefu Cyflym yn parhaus. Dylid ystyried y canlynol.

- pa grwpiau sydd wedi cynyddu neu leihau;
- a yw cyfansoddiad yr aelwydydd wedi newid;
- a yw'r rhesymau dros ddigartrefedd wedi newid;
- a yw lefelau mynychder digartrefedd wedi gostwng; ac
- a yw canlyniadau wedi gwella dros amser

Asesiad o'r Farchnad Tai Leol (LHMA) – dylid cysylltu hyn â'r ymarfer LHMA parhaus, gan esbonio, fel sy'n briodol, lle mae bylchau cyflenwi wedi cael eu nodi. Os yw'r LHMA yn nodi bylchau yn y cyflenwad tai ar gyfer meysydd perthnasol, maen nhw'n cael eu hystyried yma a byddan nhw'n llywio LHMA's yn y dyfodol. Dylai ymarferwyr sicrhau cysondeb rhwng y data a ddefnyddir o fewn yr LHMA a'r RRHTP.

3.2.3 Adolygiad o lety dros dro

Dylid cynnal adolygiad o lety dros dro, gan gynnwys asesiad o'r cynnydd a wnaed o ran trawsnewid darpariaeth llety dros dro ers yr RRHTP gwreiddiol a lleihau dibynnu ar lety dros dro. Dylai'r adolygiad:

- adolygu newidiadau i'r ddarpariaeth llety dros dro ers y RRHTP gwreiddiol;
- asesu a yw'r ddarpariaeth bresennol yn parhau i fodloni'r galw lleol;
- ystyried pa mor effeithiol mae llety dros dro yn cefnogi dull Ailgartrefu Cyflym;
- nodi bylchau o ran darpariaeth, ansawdd, addasrwydd a hygrychedd;
- gwerthuso i ba raddau mae llety dros dro yn gweithredu fel ymyrraeth tymor byr o fewn dull Ailgartrefu Cyflym;
- nodi'r cynnydd a wnaed o ran lleihau dibynnu ar lety dros dro a chynyddu nifer y bobl sy'n cael cartrefi sefydlog mewn modd amserol; ac

- asesu effaith gweithgareddau pontio blaenorol, gan gynnwys yr hyn sydd wedi gweithio'n dda, lle mae cynnydd wedi bod yn gyfyngedig a pha gamau pellach sydd eu hangen.

Gan ddefnyddio canfyddiadau'r adolygiad, mae'r LHMA, a thystiolaeth a gasglwyd drwy asesiadau anghenion ehangach Ailgartrefu Cyflym a'r HHSP, yn gwerthuso effeithiolrwydd gweithgareddau pontio blaenorol, gan nodi bylchau, pwysau neu feysydd i'w gwella a nodi blaenoriaethau yn y dyfodol sydd eu hangen i gefnogi sicrhau dull Ailgartrefu Cyflym parhaus. Y nod cyffredinol ddylai fod i dangos sut mae'r awdurdod lleol yn lleihau faint mae'n defnyddio llety dros dro a lle mae angen gwneud hynny, a sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio am y cyfnod byrraf posibl cyn symud i lety sefydlog.

Dylai'r blaenoriaethau hyn gael eu hymgorffori yn y blaenoriaethau strategol a'r cynllun gweithredu o fewn y Strategaeth HHSP (gweler adran 3.2), a dylen nhw gyd-fynd â'r Cynllun Adnoddau Cyflenwi Tai, yr LHMA ac amcanion Ailgartrefu Cyflym ehangach.

3.1.5 Cynllun Adnoddau Cyflenwi Tai

Gan ddefnyddio canfyddiadau'r asesiad o anghenion (camau 3.21 i 3.2.3), dylai'r Cynllun esbonio sut y bydd y cyflenwad tai yn cael ei sicrhau a'i ariannu i ddiwallu anghenion presennol nad ydyn nhw wedi cael eu diwallu a'r angen tai a ragwelir yn y dyfodol. Dylid alinio â gofynion yr LHMA i nodi'r angen tai nawr ac yn y dyfodol, a nodi sut y bydd y cyflenwad tai yn cael ei sicrhau i ddiwallu'r angen hwnnw.

Dylai hyn gynnwys asesiad o'r angen nad yw wedi cael ei ddiwallu ar hyn o bryd, y galw yn y dyfodol, bylchau cyflenwi a gofynion tai penodol, ynghyd ag esboniad clir o sut yr ymdrinnir â'r rhain drwy stoc bresennol, cyflenwadau wedi'u cynllunio, datblygiadau newydd, caffaeliadau, prynu'n ôl, addasu, addasiadau a sicrhau bod catrefi gwag yn cael eu defnyddio.

Dylid nodi'r adnoddau a'r partneriaethau sydd eu hangen i gyflenwi tai, ac esbonio sut bydd mynediad gwell at lety sefydlog priodol yn cefnogi'r dull Ailgartrefu Cyflym ac yn lleihau dibynnu ar lety dros dro.

Dylid ystyried canfyddiadau o adrannau perthnasol yr LHMA, megis [y Trosolwg o'r Farchnad Tai a Thueddiadau Economaidd-Gymdeithasol a Demograffig](#) sy'n canolbwyntio ar ddefnyddio llety dros dro, yn enwedig llety dros dro sydd y tu allan i'r gofyniad deddfwriaethol ar gyfer Addasrwydd.

3.3 Cynllunio Gweithredu

Gan ystyried y data wedi'i gasglu yn yr asesiad o anghenion, y Cynllun Adnoddau Tai ac unrhyw gamau gweithredu nad ydyn nhw wedi cael eu cwblhau sydd i'w trosglwyddo o'ch RRHTP, nodi'r blaenoriaethau allweddol dros y pedair blynedd nesaf, gan gynnwys

amcanion a meysydd penodol lle mae angen gwaith a chamau gweithredu â ffocws i sicrhau bod y dull Ailgartrefu Cyflym yn parhau.

Dylid ymgorffori'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu a nodwyd yn **adran 3 – Blaenoriaethau Strategol a'r Cynllun Gweithredu yn Atodiad A** i'r Rhaglen Digartrefedd a Chymorth Tai (HHSP).

Dylai gofynion cyflenwi tai lywio diweddariad nesaf yr awdurdod o'u [LHMA](#) drwy eich adran(nau) Tai / Cynllunio. Beth ddylid ei ystyried:

- *Model llety* – a oes gennych amlinelliad y cytunwyd arno o'r llwybrau at lety sefydlog, gan gynnwys y gwahanol fathau o lety a sut mae gofynion cymorth yn cael eu cynnwys?
- *Cymorth* – sut bydd y cymorth cywir ar gael i'r bobl gywir ar yr adeg gywir? A oes digon o gymorth i'r Grŵp Cymorth Anghenion Uchel, gan gynnwys darparu Tai yn Gyntaf neu ymyriad dwys sy'n seiliedig ar dai, ac ymateb amlasiantaethol o ansawdd uchel.
- *Cyflenwi a Thrawsnewid* – pa brinderau cyflenwi sydd a sut yr ymdrinnir â'r rhain erbyn diwedd y cam pontio pum mlynedd, er mwyn sicrhau bod cyflenwad digonol i ddiwallu anghenion llety dros dro a llety sefydlog? Mae hyn yn cynnwys defnyddio cyllid cyfalaf, ond mae hefyd yn cynnwys nodi cartrefi gwag, prynu yn ôl, ailwampio, caffael, mynediad gwell i'r sector rhentu preifat ac ati.
- *Atal* – Atal yw'r ffordd fwyaf effeithlon o fynd i'r afael â digartrefedd a rhaid iddo barhau i fod yn flaenoriaeth allweddol. A oes gennych unrhyw fylchau yn eich gwasanaethau atal cynnar, yn enwedig gwasanaethau atal cynradd ac eilaidd, a sut y bydd y rhain yn cael eu hatgyfnerthu?
- *Gweithio mewn partneriaeth* – Sut y byddwch yn parhau i weithio gyda phartneriaid allweddol, mewnol ac allanol, i sicrhau bod yr ymateb Ailgartrefu Cyflym sydd wedi'i ddatblygu yn gallu cyflawni ei nodau a'i amcanion allweddol. Mae hyn yn cynnwys newidiadau posibl i bolisiau dyrannu lleol ac ati.
- A ydych wedi ystyried sut mae eich newid i Ailgartrefu Cyflym yn cyd-fynd â'ch paratoi ar gyfer gweithredu Deddf Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) 2026?
- *Dyraniadau* – Pa mor effeithiol mae trefniadau dyrannu wedi bod wrth gefnogi dull Ailgartrefu Cyflym, a pha newidiadau pellach sydd eu hangen i gynyddu mynediad at lety sefydlog a lleihau'r amser a dreulir mewn llety dros dro.
- *Staffio* – A yw strwythurau staffio, capasiti a sgiliau gweithlu presennol yn cefnogi cyflawni amcanion Ailgartrefu Cyflym, a pha ddatblygu pellach sydd ei angen ar y gweithlu?
- *Asesiad Economaidd-Gymdeithasol/Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb* – Beth yw effeithiau economaidd-gymdeithasol ac effeithiau ar gydraddoldeb y pontio hyd yma, a sut bydd unrhyw anghydraddoldebau neu effeithiau anfwriadol yn cael eu datrys?

Atodiad A

Enghreifftiau o arfer da ym maes Ailgartrefu Cyflym

Mae awdurdodau lleol ledled Cymru yn chwilio am atebion ac yn dangos enghreifftiau o arferion da ac arloesol wrth iddyn nhw geisio bontio i'r dull Ailgartrefu Cyflym a goresgyn rhwystrau.

Mae'r casgliad hwn o astudiaethau achos yn dangos amrediad o enghreifftiau o arfer da a rennir ar draws gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac a gyflwynwyd yn uwchgynhadledd genedlaethol Ailgartrefu Cyflym ym mis Medi 2025. Ei nod oedd mynd ati mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar atebion i fwrw ymlaen ag Ailgartrefu Cyflym, yn ogystal â rhannu syniadau ac arferion da. Cynhaliwyd yr uwchgynhadledd gan Cymorth Cymru mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, ac roedd wedi'i hanelu at bobl sy'n dal swyddi uwch/strategol ar draws llywodraeth leol, tai, sefydliadau'r trydydd sector a gwasanaethau cyhoeddus y mae eu rolau yn ymwneud ag unrhyw agwedd ar Ailgartrefu Cyflym.

Mae rhagor o enghreifftiau o Arferion Da ar dudalen we Cymorth Cymru: [Uwchgynhadledd Ailgartrefu Cyflym 2025 – Cymorth Cymru](#).

Diffyg tai sefydlog sy'n fforddiadwy ac addas

Dros y blynyddoedd diwethaf, bu gostyngiad sylweddol yn y llety rhent preifat fforddiadwy sydd ar gael. Yn ogystal, mae'r galw am dai cymdeithasol wedi bod yn uchel. Am fod awdurdodau lleol yn wynebu anawsterau o ran cyflenwadau cyfyngedig, yn enwedig eiddo un ystafell wely, mae aelwydydd digartref yn aros mewn llety dros dro am gyfnodau estynedig. Mae hyn, wrth gwrs, yn mynd yn groes i egwyddor Ailgartrefu Cyflym.

Enghreifftiau o Arferion Da wrth geisio atebion i'r rhwystr hwn:

Mae **Cyngor Sir Ynys Môn** wedi gweithio gyda landlordiaid sector rhent preifat, gan ddefnyddio Cynllun Lesio Cymru i droi eiddo anfforddiadwy o ansawdd gwael yn dai fforddiadwy, tymor hir o ansawdd uchel. Mae **Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Sir Powys** wedi cydweithio â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSLs) ac wedi ceisio cynyddu eu defnydd o dai cyngor ac RSL fel llety dros dro ac yna, wedi hynny, wedi troi'r llety dros dro yn dai parhaol, gan ganiatáu i aelwydydd aros mewn cartref addas a sefydlog. Mae'r dull hwn wedi helpu i leihau'r defnydd o dai dros dro a lleihau faint o weithiau y mae angen i bobl symud i ddatrys eu digartrefedd.

Mae **Cyngor Sir Powys** hefyd wedi cynyddu ei gymorth i bobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref drwy gynnig bondiau a/neu fenthyciadau i alluogi pobl i symud i eiddo rhent preifat. Yn ogystal, mae wedi adolygu a diwygio ei bolisiau dyrannu i gynyddu'r flaenoriaeth a roddir i rai pobl gael mynediad at lety parhaol (fel pobl sy'n barod i symud ymlaen o dai â chymorth), gan liniaru mannau pwysau uchel o fewn y system.

Yn y cyfamser, mae **Cyngor Dinas Caerdydd** wedi dweud ei fod wedi blaenoriaethu ehangu nifer yr opsiynau tai sydd ar gael ar draws yr awdurdod. Mae hyn wedi cynnwys buddsoddi mewn ailddatblygu Tîm Sector Rhentu Preifat y Cyngor, a phrynu eiddo yn

uniongyrchol o'r farchnad agored. Mae'r cyngor hefyd wedi canolbwyntio ar adeiladu rhagor o lety i bobl ag anghenion cymhleth, gan gydnabod y cynnydd yn y galw ac y gall llety dros dro gyflwyno rhagor o heriau byth pan fydd gan bobl anghenion cymorth ychwanegol. Yn benodol, mae wedi cyflwyno cynllun 'llety a reolir' newydd gyda chymorth ar y safle. Mae'r cyngor hefyd wedi ehangu ei gynnig Tai yn Gyntaf, gan ddarparu cannoedd o unedau llety i oedolion a phobl ifanc na fydden nhw fel arfer yn gallu rheoli cartref yn y gymuned.

Er mai nod Ailgartrefu Cyflym yw symud pobl i gartrefi sefydlog cyn gynted â phosibl, mae lefel y galw am lety dros dro – yn ogystal â'r amserlenni hirach sydd eu hangen i adeiladu cartrefi parhaol – wedi golygu bod angen buddsoddi ar yr un pryd mewn ychwanegu at stoc dai llety dros dro fel mesur trosiannol. Mae **Cyngor Dinas Caerdydd** wedi cael gwared ar gannoedd o fannau cysgu a rennir a mannau mewn gwestai drwy gynyddu nifer yr unedau llety hunangynhwysol sydd ar gael. Yn benodol, mae'r cyngor wedi defnyddio datblygu cartrefi modiwlaid i ddiwallu anghenion tai brys teuluoedd sy'n profi digartrefedd. Yn y cyfamser, mae Cyngor Caerdydd hefyd wedi ceisio cynyddu llety a reolir a chynigion Tai yn Gyntaf, er mwyn helpu i leihau llety dros dro ar gyfer aelwydydd unigol ag anghenion mwy cymhleth. Yn ogystal, mae'r cyngor wedi dweud bod gwaith yn mynd rhagddo i gynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy yn y ddinas yn sylweddol, gyda chynllun datblygu tai Caerdydd yn anelu at ddarparu 2,400 o gartrefi erbyn mis Mawrth 2028.

Nod Ailgartrefu Cyflym a dulliau atal yw sicrhau tai sefydlog yn gyflym, gydag Ailgartrefu Cyflym yn canolbwyntio ar ailgartrefu ar unwaith ac atal, gan dargedu arwyddion cynnar o ansefydlogrwydd o ran tai. Mae cysylltu Ailgartrefu Cyflym â dulliau atal yn ffordd effeithiol o nodi pobl sy'n gallu osgoi treulio unrhyw amser mewn llety dros dro neu lety argyfwng, a lleihau costau ymhellach yn ogystal â chanlyniadau gwell i unigolion.

Disgrifiodd y cyflwyniad yn uwchgynhadledd Ailgartrefu Cyflym y ffordd mae Gwasanaethau Cynhwysiant Iechyd Caerdydd yn cael eu datblygu drwy weithio mewn partneriaeth amlasiantaeth gref rhwng Cyngor Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a phartneriaid trydydd sector a chyfiawnder troseddol. Gan adeiladu ar y Tîm Digartrefedd Amlddisgyblaethol, dan arweiniad y Cyngor, mae'r rhaglen yn symud tuag at fodel prif ganolfan a lloerennau, gan gyfuno allgymorth arbenigol—gan gynnwys clinigau meddyg teulu a nyrsio mewn hosteli anghenion uchel, swyddfeydd prawf a lleoliadau'r trydydd sector—gyda mewngymorth ysbyty a Hyb Cynhwysiant Iechyd yn cael eu datblygu, i wella mynediad ar gyfer pobl sy'n profi digartrefedd a grwpiau cynhwysiant iechyd eraill.

Yn ganolog i'r model a gyflwynir yw defnyddio ddata i ddeall yr angen a dangos yr effeithiau, gan gynnwys dadansoddiad o weithgarwch y GIG, marwolaethau pobl ddigartref, ac olrhain ar sail grŵp. Ers ehangu gwasanaethau allgymorth a chyflwyno tîm mewngymorth ysbyty, mae'r data yn dangos gostyngiadau i bresenoldeb mewn adrannau brys, derbyniadau i'r ysbyty, diwrnodau gwely a chostau cysylltiedig ar gyfer grwpiau sefydledig. Un wers allweddol y tynnwyd sylw ati yw bod gwasanaethau iechyd, tai a gofal

cymdeithasol sy'n gweithredu ar y cyd wedi'u cefnogi gan lywodraethiant cryf a gweithio mewn partneriaeth, yn fwy effeithiol na gwasanaeth ar wahân wrth wella canlyniadau a lleihau pwysau ar y system.

Gyda dyletswyddau atal cryfach yn Neddf Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) 2026, mae'r enghreifftiau isod yn dangos sut mae **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Castell-nedd Port Talbot, a Chyngor Sir Ynys Môn** eisoes wedi dechrau rhoi ffocws sylweddol ar atal aelwydydd rhag mynd yn ddigartref yn y lle cyntaf.

Yng **Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**, mae swyddogion wedi ceisio datblygu dealltwriaeth dda o atal a'r adnoddau sydd eu hangen i gefnogi'r gwaith hwn drwy weithio'n agos gydag amrediad o bartneriaid allweddol, gan gynnwys iechyd, prawf a CThEF – gan gydnabod y gall amrediad helaeth o ffactorau arwain at ddigartrefedd. Mae'r cyngor wedi edrych yn fanwl ar adolygiadau rheolaidd o arferion gweithredol ac adroddiadau data.

Yng Nghyngor Castell-nedd Port Talbot, mae ailstrwythuro gwasanaeth wedi sicrhau bod y tîm Pwynt Cyswllt Cyntaf yn cynnwys pedwar Swyddog Atal Opsiynau Tai a dau Swyddog Ymyrraeth Gynnar. Mae'r swyddogion hyn yn darparu cymorth fel cyngor ar fudd-daliadau, cyllidebu a datrys ôl-ddyledion i atal digartrefedd cyn iddo ddigwydd. Mae'r cyngor wedi dweud bod hyn yn sicrhau bod materion yn cael eu datrys yn gynnar, gan leihau argyfyngau ac atgyfnerthu diogelwch tai. O fewn Gwasanaeth Atal ac Ailsefydlu'r cyngor, mae gweithwyr Ailgartrefu Cyflym neilltuedig yn canolbwyntio ar gymorth parhaus, sy'n canolbwyntio ar y person i helpu unigolion i gadw eu llety.

Mae **Cyngor Sir Ynys Môn** hefyd wedi ceisio ailfodelu ei swyddogaeth Opsiynau Tai Digartrefedd, gan sicrhau bod y strwythur bellach yn cynnwys Arweinydd Tîm Atal ac Arweinydd Tîm Argyfwng. Mae'r cyngor yn nodi bod y strwythur newydd hwn yn galluogi'r timau i flaenoriaethu gwaith atal ac argyfwng, sy'n arwain at ganlyniadau mwy cadarnhaol ac yn lleihau'r angen am ymyrraeth mewn argyfwng. Mae llwybrau wedi'u targedu hefyd wedi cael eu datblygu i helpu i nodi grwpiau agored i niwed sy'n nesáu at adegau trosiannol, fel y gall cymorth ddechrau cyn iddyn nhw gyrraedd argyfwng. Mae'r rhain yn cynnwys llwybr ar gyfer carcharorion, llwybr iechyd meddwl, llwybr rhyddhau cyffredinol, llwybr trais domestig a llwybr ar gyfer pobl ifanc.

Adeiladu partneriaethau cryf ar draws sectorau

Un o egwyddorion sylfaenol Ailgartrefu Cyflym yw sicrhau bod pobl yn gallu cael y cymorth sydd ei hangen arnyn nhw i ailadeiladu eu bywydau. Mae'r sbardunau ar gyfer digartrefedd a'r anghenion cymorth a all ddatblygu o ganlyniad i brofi trawma digartrefedd yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r angen am gartref. Er enghraifft, gall anghenion cymorth gynnwys iechyd, rheoli perthnasoedd, datblygu sgiliau ariannol, iechyd meddwl neu fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau. Felly, er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnyn nhw, mae angen cydweithredu rhwng rhanddeiliaid lluosog, gan gynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, darparwyr Grant Cymorth Tai, landlordiaid preifat, adrannau mewnol awdurdodau lleol, iechyd,

gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth prawf. Mae gan bob partner wahanol flaenoriaethau, pwysau a chyfyngiadau gweithredol, a all arwain at heriau wrth gysoni amcanion. Er enghraifft, mewn rhai meysydd gall fod yn anodd annog timau iechyd i gymryd rhan weithredol yn Ailgartrefu Cymru.

Enghreifftiau o Arferion Da wrth geisio atebion i'r rhwystr hwn:

Mae **Cyngor Sir Ynys Môn** wedi dweud bod cyfathrebu agored am realiti pwysau digartrefedd, nodi manteision cydfuddiannol partneriaethau, a nodau a rennir yn helpu i feithrin cydweithredu. Mae'r cyngor wedi sefydlu fforymau ymgysylltu rheolaidd, ac mae wedi dweud bod y rhain wedi bod yn hanfodol wrth ddod â darparwyr cymorth yn agosach at wasanaethau statudol, gan sicrhau bod pawb yn gweithio o un cynllun. Mae'r cysylltiadau hyn wedi gofyn am waith parhaus, yn enwedig pan fydd adnoddau'n brin neu pan fydd newidiadau polisi yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau. Mae cytundebau clir, atebolrwydd a rennir, a dangos canlyniadau cadarnhaol i bob parti wedi bod yn strategaethau allweddol wrth oresgyn yr anawsterau hyn. Cynhelir fforymau amlasiantaethol rheolaidd (e.e. paneli Llety dros dro) gan y cyngor gyda'r nod o sicrhau tryloywder a gweithredu cydgysylltiedig. Mae'r cyngor wedi nodi bod hyn wedi gwella effeithlonrwydd a chanlyniadau.

Yn y cyfamser, mae **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf** wedi dweud ei fod wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid i rannu gweledigaeth a thaith Ailgartrefu Cyflym a sicrhau bod yr holl bartneriaid allweddol yn deall eu rôl wrth ei chyflawni. Mae hyn yn cynnwys cynnal cyfarfodydd dal i fyny yn rheolaidd i rannu data a chanlyniadau. Mae'r Cyngor wedi clustnodi adnoddau staff i sefydlu ffyrdd newydd o weithio, megis aelodau staff wedi'u neilltuo i oruchwyllo Tai yn Gyntaf, sy'n cynnwys sefydlu pwynt cyswllt awdurdod lleol ar gyfer atgyfeiriadau, ymholiadau partneriaid a sefydlu a chadeirio grwpiau gweithredol a llywio ar gyfer Tai yn Gyntaf.

Yn ogystal, mae'r Cyngor hefyd wedi sefydlu tîm allgymorth amlddisgyblaethol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morganwg, sy'n cynnwys nyrsys iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, therapyddion, gweithiwr cymdeithasol ac arbenigwyr mewn camddefnyddio sylweddau yn y trydydd sector. Mae'r partneriaid hyn yn gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr tai a digartrefedd i helpu i ddarparu'r cymorth sydd ei angen. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cymorth cofleidiol i grwpiau o aelwydydd digartref, gan gynnwys pobl ag anghenion cymhleth sy'n cael eu cefnogi drwy Tai yn Gyntaf a phobl sy'n byw mewn llety dros dro.

Yng Ngogledd Cymru, mae grŵp gweithredol y Bwrdd Cynllunio Ardal yn cynnwys eitem agenda sefydlog ar Ailgartrefu Cyflym a thai, sy'n helpu i hwyluso trafodaethau parhaus â phartneriaid allweddol ar gefnogi'r rhai sy'n profi digartrefedd a chamddefnyddio sylweddau.

Enghraifft arall o ddull Ailgartrefu Cyflym yn Abertawe yw drwy **Skylight Crisis Cymru**, sydd wedi bod yn treialu'r dull Ymyriadau Cyfnod Allweddol (CTI) gyda rhai sy'n gadael y carchar. Mae tystiolaeth gref yn yr Unol Daleithiau a Denmarc i gefnogi'r dull hwn fel

ymyrraeth effeithiol i atal digartrefedd i bobl ar adeg drosiannol yn eu bywydau, fel gadael y carchar. Mae'r dull yn gweithredu drwy ddarparu mynediad at dai sefydlog a chymorth dwys, â ffocws am gyfnod penodol i helpu pobl i ymgartrefu yn eu cartref a chael mynediad at wasanaethau cymorth prif ffrwd. Mae timau Ymyriadau Cyfnod Allweddol yn gweithio gyda phobl cyn, yn ystod ac ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau o'r carchar i'w cefnogi i gael hyfforddiant, cyflogaeth a thai sefydlog. Mae eu dull hyblyg yn caniatáu iddyn nhw weithio gydag unigolion sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar, gan gynnwys y rhai sydd ar remánd, ar gyfnod prawf, neu gydag achosion heb eu cwblhau, gan gynnig cymorth am fisoedd ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau ac yn sylweddol hirach na chynlluniau eraill fel y gwasanaeth Rheoli Troseddwyr yn y Gymuned (CAS 3), sy'n darparu cymorth am 12 wythnos i bobl heb gyfeiriad sefydlog ar ôl eu rhyddhau.

Yng Nghaerdydd, mae Gwasanaethau Cynhwysiant Iechyd yn cael eu datblygu drwy weithio mewn partneriaeth amlasiantaeth gref rhwng **Cyngor Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**, yn ogystal â phartneriaid trydydd sector a chyfiawnder troseddol. Gan adeiladu ar y Tîm Digartrefedd Amlddisgyblaethol, dan arweiniad y Cyngor, mae'r rhaglen yn symud tuag at fodel prif ganolfan a lloerennau, gan gyfuno allgymorth arbenigol—gan gynnwys clinigau meddyg teulu a nyrsio mewn hosteli anghenion uchel, swyddfeydd prawf a lleoliadau'r trydydd sector—gyda mewngymorth ysbyty a Hyb Cynhwysiant Iechyd yn cael ei ddatblygu, i wella mynediad ar gyfer pobl sy'n profi digartrefedd a grwpiau cynhwysiant iechyd eraill. Yn ganolog i'r model hwn mae defnyddio ddata i ddeall yr angen a dangos yr effeithiau, gan gynnwys dadansoddiad o weithgarwch y GIG, marwolaethau pobl ddigartref, ac olrhain ar sail grŵp. Yn dilyn ehangu gwasanaethau allgymorth a chyflwyno tîm mewngymorth ysbyty, mae'r data yn dangos gostyngiadau i bresenoldeb mewn adrannau brys, derbyniadau i'r ysbyty, diwrnodau gwely a chostau cysylltiedig ar gyfer grwpiau sefydledig. Un wers allweddol y tynnwyd sylw ati yw bod gwasanaethau iechyd, tai a gofal cymdeithasol sy'n gweithredu ar y cyd wedi'u cefnogi gan lywodraethiant cryf a gweithio mewn partneriaeth, yn fwy effeithiol na gwasanaeth ar wahân wrth wella canlyniadau a lleihau pwysau ar y system.

Sicrhau bod data cywir yn llywio penderfyniadau

Elfen bwysig o ddatblygu Ailgartrefu Cyflym yw sicrhau bod yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i awdurdodau lleol yn cael eu cyfeirio i'r gwasanaethau lle byddan nhw'n cael yr effaith fwyaf. Mae pwysigrwydd data cywir, perthnasol ac ystyrlon ar anghenion tai a chymorth amrywiol pobl sy'n profi digartrefedd wedi cael ei godi yn rheolaidd ar draws gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, fel agwedd allweddol ar alluogi gwneud penderfyniadau da a gwybodus ynghylch cynllunio tai ac adnoddau. Yn anffodus, gall diffyg systemau TG sy'n gallu casglu'r holl ddata sydd ei angen, yn ogystal â'r angen i adolygu data ac adroddiadau yn gyson fod yn rhwystr i wneud penderfyniadau da.

Engbrefftau o Arferion Da wrth geisio atebion i'r rhwystr hwn:

Mae **Cyngor Castell-nedd Port Talbot** wedi dweud ei fod yn atgyfnerthu darpariaeth rheng flaen drwy ddealltwriaeth sy'n seiliedig ar ddata a goruchwyliaeth strategol. Gan ddefnyddio data ar stoc dai, trosiant a galw, mae tîm Strategaeth Tai y cyngor wedi ceisio

llywio ymyriadau wedi'u targedu, gwella partneriaethau a galluogi cymorth wedi'i deilwra i bobl ag anghenion cymhleth. Mae'r cyngor yn adrodd am gyflawniadau allweddol, gan gynnwys cymeradwyaeth y Cabinet i brynu stoc sy'n eiddo i'r cyngor, contractau trosi meddiannaeth llwyddiannus (h.y. newid cartref dros dro yn gartref parhaol), a lansio'r peilot *Homes for Me*. Mae'r peilot hwn yn proffilio cleientiaid i greu pecynnau tai a chymorth wedi'u personoli. Mae'r cyngor yn pwysleisio bod gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata bellach yn ganolog i lunio gwasanaethau.

Mae **Cyngor Dinas Caerdydd** yn adrodd ei fod wedi sefydlu prosesau cadarn i sicrhau bod unrhyw ddata sy'n nodi angen tai yn cael ei rannu â'r timau sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau strategol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod timau tai a digartrefedd rheng flaen yn adrodd data allweddol i uwch reolwyr yn rheolaidd bob wythnos, bob mis a phob blwyddyn. Mae'r cyngor hefyd wedi dweud ei fod yn defnyddio dealltwriaeth o'r Asesiadau o'r Farchnad Tai Leol a'r prospectws tai blynyddol i lywio Strategaeth ei Raglen Digartrefedd a Chymorth Tai.

Yn y cyfamser, mae **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf** wedi ceisio adolygu ei ddata, gan weithio gyda Swyddog Data a Rheolwyr Gwasanaethau'r cyngor i roi eglurder ynghylch yr adroddiadau data sydd eu hangen ar gyfer meysydd gwasanaeth. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y data mwyaf perthnasol bob amser yn cael ei gasglu a'i ddadansoddi. Mae'r prosiect 'Built for Zero' yn yr ardal wedi cynnwys rhannu data cydweithredol ac adeiladu perthynas rhwng partneriaid lluosog. Mae'r prosiect hwn, sy'n cydnabod y cyfraddau uchel o ddigartrefedd ymhlith pobl sy'n gadael y carchar yn yr ardal, yn ogystal â'r amrediad o anghenion cymorth a all fodoli o fewn y grŵp hwn, wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid – gan gynnwys CThEF, iechyd, y cyngor, Crisis a'r trydydd sector. Mae'n ceisio rhannu a chadw data byw ar y rhai y disgwylir iddyn nhw adael y carchar, ac i gynllunio ar y cyd ar gyfer eu hanghenion cymorth a thai. Mae'r prosiect wedi cydnabod pwysigrwydd datblygu dangosyddion perfformiad allweddol a rennir ar draws partneriaid ac adroddir bod hyn yn gwneud cryn wahaniaeth i'r ffordd y mae partneriaid bellach yn gweithio gyda phobl sy'n gadael y carchar.